
Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

Local Democracy and Boundary Commission For Wales

Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

# Penodi Cadeirydd

**Gwybodaeth i ymgeiswyr**



This document is available in English.
Mae’r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.

© Hawlfraint y Goron 2021
Gallwch ailddefnyddio’r wybodaeth hon (ac eithrio’r logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu anfonwch neges e-bost at: psi@nationalarchives. gov.uk
Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint dan sylw.
Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â’r cyhoeddiad hwn atom yn ymholiadau@ffiniau.cymru
Mae’r ddogfen hon ar gael o’n gwefan hefyd yn www.cffdl.llyw.cymru

# Cynnwys

| | | |
|---|---|---|
| Pennod 1 | Gwneud Cais | 04 |
| Atodiad A | Rôl a Manyleb y Person ar gyfer Cadeirydd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru | 08 |
| Atodiad B | Rôl a chyfrifoldebau Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru | 13 |
| Atodiad C | Y broses ddethol | 16 |

# Gwneud cais

Diolch am eich diddordeb yn y penodiad i fod yn Cadeirydd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Mae'r Atodiadau yn rhoi manylion am rôl y Cadeirydd a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru a'r broses ddethol.

I wneud cais ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma [Penodiadau Cyhoeddus](Penodiadau Cyhoeddus).

I wneud cais am y swydd hon, cliciwch ar swydd wag y Cadeirydd a chliciwch 'Gwneud cais' ar waelod ochr chwith y dudalen. Y tro gyntaf ichi wneud cais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y mae angen ichi gofrestru, a thrwy wneud hynny byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu hanfon, trwy eich cyfrif.

Unwaith ichi gofrestru, byddwch yn gallu cael mynediad at y ffurflen gais. I wneud cais bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV i adran 'Rhesymau dros ymgeisio' y ffurflen gais ar-lein.

## Datganiad Personol

Eich datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf a nodir ym manyleb y person. Chi sydd i benderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech anelu at ddarparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut y mae'ch gwybodaeth a'ch profiadau yn cyd-fynd â phob maen prawf, ac sy'n disgrifio'ch cyfraniad at gyflawni canlyniad penodol. Bydd hefyd o fudd i'r panel dethol os gallwch nodi'n glir pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae'n arfer cyffredin darparu paragraffau ar wahân mewn perthynas â phob maen prawf.

Ni ddylai'r datganiad personol fod yn hwy na dwy dudalen. Gallai eich cais gael ei wrthod os byddwch yn mynd dros y terfyn hwn.

## CV

Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf a'ch dyddiadau yn y swydd hon. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

## Geirdaon

Rhowch ddau enw cyswllt y gallwn gysylltu â hwy i ofyn am eirda (geirda cyflogwr a geirda personol). Dim ond ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus y byddwn yn gwneud hyn.

## Amserlen fras

| | |
|---|---|
| Dyddiad cau: | 16:00 11 Hydref 2021 |
| Llunio rhestr fer: | yr wythnos yn dechrau ar 25 Hydref 2021 |
| Cyfweliadau: | yr wythnos yn dechrau ar 29 Tachwedd 2021 |



## Datganiad am Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai aelodau byrddau cyrff cyhoeddus adlewyrchu'r gymdeithas yng Nghymru – pobl o bob cefndir – er mwyn eu helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyma pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

## Hyderus o ran Anabledd

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, lle cydnabyddir bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gweithredu i analluogi pobl sydd â namau neu gyflyrau iechyd neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau fel y gall yr holl staff berfformio ar eu gorau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd ("nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd").

Rydym yn gwarantu cyfweld ag unrhyw un sy'n anabl y mae ei gais yn bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer y swydd. Yn ôl 'meini prawf gofynnol' rydym yn golygu bod yn rhaid i chi roi tystiolaeth i ni yn eich cais sy'n dangos eich bod yn gyffredinol yn bodloni lefel y cymhwysedd ar gyfer y rôl ac unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiad a ddiffinnir fel rhai hanfodol.

Os hoffech gael gwarant o gyfweliad, cysylltwch â'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus drwy e-bost penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

Os oes gennych nam neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain a bod angen i chi drafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, cysylltwch â'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus cyn gynted â phosibl a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion ac unrhyw gwestiynau sydd gennych.

## Cysylltiadau

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â:

Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus, yr Uned Penodiadau Cyhoeddus
E-bost: penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

I gael gwybodaeth am Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, efallai yr hoffech ymweld â gwefan y Comisiwn: Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru neu gysylltu â Phrif Weithredwr Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, Shereen Williams,

Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
Rhif ffôn: 02921 052501
e-bost: shereen.williams@ffiniau.cymru.

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch chi i wneud cais am y rôl hon, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus.



# Atodiad A
## Rôl a Manyleb y Person

### Disgrifiad o'r rôl

Bydd y Cadeirydd yn rhoi arweiniad i'r Comisiynwyr eraill ac i'r ysgrifenyddiaeth a bydd yn rheoli Prif Weithredwr y Comisiwn.

Bydd y Cadeirydd hefyd yn arwain ar gyfrifoldebau'r Comisiwn o ran bodloni safonau'r Gymraeg, dyletswyddau cydraddoldeb, datblygu cynaliadwy a gweithio mewn partneriaeth.

Bydd gan Gadeirydd y Comisiwn drosolwg o'r meysydd hyn:

#### Y Rhaglen Adolygu

- Datblygu'r Polisi ac Arfer a'r Fethodoleg Maint Cynghorau ar gyfer y Rhaglen Adolygu Etholiadol nesaf, gan adlewyrchu'r hyn a ddysgwyd o'r rhaglen flaenorol a chomisiynu ymchwil ar faterion penodol.
- Bydd yr Aelodau hefyd yn sicrhau bod ymgynghori eang â Llywodraeth Cymru, Prif Gynghorau, Cynghorau Cymuned a Thref, a'r holl randdeiliaid eraill fel rhan o'r broses hon.
- Asesu amrywiaeth o opsiynau ar gyfer nifer cynghorwyr a'r ardaloedd y maent yn eu cynrychioli, gan ystyried cymhlethdodau ac, yn aml ffactorau sy'n gwrthddweud ei gilydd, o ran demograffeg a seilwaith yr ardal sy'n cael ei hadolygu, ac ystod eang o safbwyntiau a geir yn adborth drwy ymgynghori.
- Gweithredu ar y cyd i wneud penderfyniadau drafft a therfynol ar adolygiadau etholiadol unigol.
- Gweithio gyda phrif gynghorau i sicrhau bod ffiniau cymunedau a threfniadau etholiadol yn cael eu hadolygu a'u cydgysylltu'n rheolaidd â'r rhaglen o adolygiadau etholiadol.
- Gweithredu ar y cyd i wneud gorchmynion ar adolygiadau cymunedol unigol.
- Bod yn ymwybodol, bob amser, o'r risgiau, o ran enw da a materion eraill, sy'n gysylltiedig â'r adolygiadau, a'r canlyniadau posibl i'r Comisiwn, ei aelodau a Llywodraeth Cymru.
- Sicrhau bod cyfrifoldebau Comisiynwyr dros oruchwylio nifer o Adolygiadau Etholiadol penodol fel Comisiynydd Arweiniol yn cyflawni eu rôl o ran arwain cyflwyniadau ac annerch cyfarfodydd ymgysylltu â chynghorwyr Prif Gynghorau, gan gynnwys arweinwyr grwpiau gwleidyddol, ac uwchswyddogion cynghorau; cynghorwyr a chlercod Cynghorau Cymuned a Thref; y cyhoedd a grwpiau eraill a fydd â diddordeb yn yr adolygiad.

#### Llywodraethiant Corfforaethol

- Sicrhau bod y sefydliad yn cael ei redeg yn dda a'i fod yn atebol
- Monitro'r gyllideb yn fisol (£1,411,000 yn 2021/22). Mae hyn yn cynnwys cyllideb Swyddfa'r Cabinet ar gyfer y Comisiwn Ffiniau i Gymru (sy'n ymwneud ag adolygiadau seneddol).



- Sicrhau bod y Comisiwn yn gweithio yn unol â deddfwriaeth, ei gynlluniau, ei weithdrefnau a'i bolisïau a bod y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.
- Bod yn ymwybodol o nodau ac amcanion Llywodraeth Cymru.
- Darparu arweiniad a ffocws i'r sefydliad wrth iddo wireddu ei amcanion a chyflawni ei ddyletswyddau a sicrhau bod Llythyr Cylch Gwaith y Gweinidog yn cael ei gyflawni.
- Cefnogi'r Prif Weithredwr mewn perthynas â materion adnoddau dynol, gan sicrhau bod sgiliau'r staff yn cael eu datblygu a'u cynnal.
- Gweithio'n agos fel tîm o Gomisiynwyr a chyda'r staff.
- Ymgysylltu'n gyson â rhanddeiliaid i gynnal yr enw da am ragoriaeth.
- Sicrhau bod y Pwyllgor Archwilio ac Asesu Risg ac Is-bwyllgor y Gweithlu yn bodloni eu gofynion.



## Manyleb y Person

I gael eich ystyried, rhaid ichi allu dangos bod gennych y rhinweddau a’r sgiliau canlynol i fodloni’r holl feini prawf hanfodol ar gyfer y penodiad:

Dylai ymgeiswyr:

- bod yn fedrus iawn wrth arwain tîm bach i gyflwyno rhaglen waith yn brydlon ac i safonau uchel a dangos sgiliau profedig wrth gadeirio cyfarfodydd/paneli;
- gallu dangos ymrwymiad i reoli cyllidebau’n effeithiol ac yn effeithlon o fewn fframwaith ‘Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru’;
- gallu gweithio’n annibynnol ac fel rhan o dîm bach;
- gallu gwerthuso gwybodaeth a dod i gasgliad rhesymegol;
- bod yn fedrus o ran cyfathrebu a negodi;
- gallu cymryd safbwynt annibynnol, cyfartal a dangos niwtraliaeth wleidyddol;
- meddu ar ddealltwriaeth ac ymrwymiad clir i faterion cydraddoldeb a herio arferion gwahaniaethol, a dealltwriaeth ac ymrwymiad clir i ‘Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus’ Nolan.

### Y Gymraeg

Mae sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol ond nid yn hanfodol ar gyfer y penodiad.

Fodd bynnag, bydd disgwyl i bob ymgeisydd ddangos empathi tuag at yr iaith.

Deall – Gallu deall sgyrsiau sylfaenol am bynciau bob dydd

Darllen – Gallu darllen a deall deunydd syml ar bynciau pob dydd

Siarad – Gallu sgwrsio mewn sgyrsiau syml sy’n gysylltiedig â gwaith

Ysgrifennu – Gallu ysgrifennu gohebiaeth syml sy’n gysylltiedig â gwaithBod yn ymwybodol o nodau ac amcanion Llywodraeth Cymru.

### Ffeithiau allweddol am y swydd

Lleoliad: Caerdydd neu’n rhithwir drwy Microsoft Teams

Ymrwymiad amser: O leiaf 1-2 ddiwrnod y mis



Cyfnod y penodiad: Penodir am 4 blynedd i ddechrau

Tal cydnabyddiaeth £268.91 am bob diwrnod llawn, £134.46 am hanner diwrnod (y bandio’n cael ei adolygu).

### Pwy sy’n gymwys

Nid yw unrhyw unigolyn sy’n dal un neu ragor o’r swyddi isod yn gymwys i wneud cais am y rôl hon, oherwydd Adran 4(3) o Ddeddf Lleol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 sy’n datgan na chaiff Gweinidogion Cymru benodi unigolyn sy’n dal unrhyw un o’r swyddi hyn:

- aelod Seneddol;
- aelod o’r Senedd;
- aelod o awdurdod lleol yng Nghymru;
- swyddog i awdurdod lleol yng Nghymru;



- aelod o awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru;
- comisiynydd yr heddlu a throseddu ar gyfer un o ardaloedd yr heddlu yng Nghymru; neu
- aelod o staff y Comisiwn.

Dylai ymgeiswyr hefyd nodi bod bod yn aelod o Gomisiwn Ffiniau a DemocratiaethLeol Cymru yn swydd anghymwyso ar gyfer aelodaeth o Senedd Cymru o dan Orchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020.

Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020 (legislation.gov.uk)

## Gwrthdaro Buddiannau

IByddwch yn cael cais i ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Cadeirydd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, gan gynnwys unrhyw fuddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'ch rôl yng Nghomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweliad. Os byddwch yn cael eich penodi, bydd disgwyl ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

### Diwydrwydd Dyladwy

Bydd Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar bob ymgeisydd sy'n cael ei ddidoli'n llwyddiannus i gyfweliad. Bydd hynny'n cynnwys ymhlith efallai pethau eraill, chwiliadau yn y cyfryngau cymdeithasol a'r Rhyngrwyd. O ganlyniad, gallem ofyn cwestiynau ichi yn y cyfweliad am ffrwyth yr archwiliadau diwydrwydd dyladwy hyn.

### Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl ichi ddangos safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol.

Bydd gofyn i'r holl ymgeiswyr llwyddiannus gydymffurfio â Chod Ymddygiad Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus. Gallwch weld y ddogfen yma:

https://www.gov.uk/government/publications/code-of-conduct-for-board-members-ofpublic-bodies



# Atodiad B
## Rôl a chyfrifoldebau Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

Mae Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn Gorff annibynnol a Noddir gan Lywodraeth Cymru y mae ei ddyletswyddau statudol wedi'u nodi yn Neddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013.

Mae'r dyletswyddau hyn yn cynnwys:

- Sicrhau bod trefniadau etholiadol prif ardaloedd yn addas i'r diben – gan ddatblygu a chyflwyno rhaglen dreigl ddeng mlynedd o adolygiadau etholiadol.
- Gwneud Gorchmynion mewn perthynas â chynigion gan brif gynghorau ar gyfer newidiadau i ardaloedd cymunedol yn dilyn eu hadolygiadau o ffiniau cymunedol a threfniadau etholiadol.
- Fel y bo'n briodol, sicrhau bod ffiniau ardaloedd prif gynghorau yn addas i'r diben.
- Cynnal lefelau uchel o lywodraethiant corfforaethol ar gyfer y Comisiwn.

Yn ogystal â'i ddyletswyddau statudol, gall y Comisiwn gynnal adolygiadau neu ddarparu cyngor a gwybodaeth ar gais awdurdodau lleol neu yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru.

O ran trefniadau prif ardaloedd, mae'r Comisiwn yn gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru, sydd, yn ei farn ef, er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Caiff Gweinidogion Cymru benodi hyd at bum aelod i'r Comisiwn, sy'n cynnwys Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd a hyd at dri aelod arall. Y cworwm ar gyfer cyfarfodydd yw tri.

Darperir ysgrifenyddiaeth i'r Comisiwn gan brif weithredwr a naw aelod o staff. Mae'r strwythur staffio yn newid yn unol â rhaglenni gwaith y Comisiwn.

Bydd disgwyl i'r Aelodau fod ar gael i weithio o leiaf 1-2 ddiwrnod y mis i fynychu cyfarfodydd y Comisiwn a hefyd i fynychu cyfarfodydd eraill yn ôl y gofyn.

Mae cyfanswm nifer y diwrnodau sydd eu hangen yn amrywio yn dibynnu ar raglen waith y Comisiwn.

Mae'r Comisiwn yn cynnal cyfarfodydd hybrid a gall yr aelodau ddewis eu mynychu yn swyddfa'r Comisiwn yn Nhŷ Hastings, Caerdydd, neu yn rhithiwir drwy MS Teams.

Darperir offer a chymorth TGCh i bob Comisiynydd i'w galluogi i fynychu cyfarfodydd.

Oherwydd natur gwaith y Comisiwn, efallai y bydd adegau pan fydd angen cyfarfodydd ledled Cymru.

Telir swydd y cadeirydd ym Mand 2 - £268.91 am ddiwrnod llawn, £134.46 am hanner diwrnod (y bandio'n cael ei adolygu).

Mae Cadeirydd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn cael ei ystyried yn Ddeiliad Swydd at ddibenion treth ac Yswiriant Gwladol a chaiff ei dalu drwy gyflogres y Comisiwn.

Gellir hawlio costau teithio a threuliau rhesymol eraill y gellid eu hysgwyddo wrth wneud gwaith ar ran Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ar gyfraddau a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru. Efallai y byddwch hefyd yn gymwys i hawlio ad-daliad am gostau mewn perthynas â gofal plant/gofal yr henoed/gofalwr cynorthwyol, tra'n gwneud gwaith ar ran y Comisiwn.

Gwneir pob ymdrech i ddarparu pa bynnag gymorth rhesymol sydd ei angen ar aelodau i'w helpu i gyflawni eu dyletswyddau.

Bydd y Comisiwn a Llywodraeth Cymru yn darparu sesiynau cynefino ar gyfer yr ymgeisydd llwyddiannus.

## Dyddiad cychwyn

1 Ionawr 2022



# Atodiad C
## Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiadau personol yr ymgeiswyr i benderfynu pwy sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl orau, a phwy fydd yn cael gwahoddiad i gael cyfweliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a'r datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Sicrhewch eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol.

Cadeirydd y panel dethol fydd Lisa James – Dirprwy Gyfarwyddwr, Democratiaeth Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru a bydd y panel hefyd yn cynnwys Debra Williams, Cadeirydd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, a Rob Coombs, Uwch-swyddog Cyswllt Pleidiau Gwleidyddol, y Comisiwn Etholiadol, fel Aelod Annibynnol o'r Panel Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y bydd eich cais yn cael ei roi ar restr hir cyn cael ei roi i'r panel sy'n llunio rhestr fer i'w ystyried. Dylech fod yn ymwybodol na fydd eich cais, o bosibl, yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel wedi penderfynu fis Hydref pwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad ym mis Tachwedd.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf a fydd, ym marn y panel, wedi dangos orau eu bod yn bodloni'r meini prawf ym manyleb y person fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad.

Fodd bynnag, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweliad, a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd, cewch chithau hefyd eich gwahodd i gyfweliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad ac nad yw'r dyddiad eisoes wedi'i nodi yn y pecyn gwybodaeth hwn, ein nod yw rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi o ddyddiad y cyfweliad. Os na allwch ddod i'r cyfweliad ar y diwrnod hwnnw, fe wnawn ein gorau i'w aildrefnu ond efallai na fydd hynny'n bosibl oherwydd cyfyngiadau'r amserlen ar gyfer penodi neu am na fydd y panel dethol ar gael.

Fe gewch e-bost gan system benodi Llywodraeth Cymru i roi gwybod ichi a ydych wedi eich gwahodd i gyfweliad ai peidio. Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi ynghylch eich sgiliau a'ch profiad ac yn gofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni'r meini prawf a osodwyd ar gyfer y swydd ai peidio.

Bydd yr ymgeiswyr y bydd y panel yn credu eu bod yn addas i'w penodi yn cael eu hargymell i'r Gweinidogion, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall y Gweinidog ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os felly, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd bwlch amser rhwng y cyfweliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr a fydd wedi'u cyfweld yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am hynt y broses honno.

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr yn eich penodi'n Gadeirydd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, a fydd yn cadarnhau telerau'r penodiad. Os na fyddwch yn llwyddiannus yn dilyn eich cyfweliad, byddwch yn cael gwybod drwy ganolfan benodi Llywodraeth Cymru. Rydym yn gwerthfawrogi bod angen llawer o amser ac ymdrech er mwyn ymgeisio am rôl, ac felly mae rhoi adborth yn rhan werthfawr o'r broses. Felly, bydd y llythyr yn dweud gyda phwy y gallwch gysylltu i gael adborth ar eich cyfweliad a'ch cais, os dymunwch wneud hynny.



### Ymholiadau

Oes gennych gwestiynau am eich cais, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

### Os nad ydych yn hollol fodlon

Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

Neu gallwch ysgrifennu i: Office of the Commissioner for Public Appointments, G/08, 1 Horse Guards Road, London SW1A 2HQ

Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

Local Democracy and Boundary Commission For Wales

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth, e-byst a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.
Er mwyn cysylltu gyda'r Comisiwn, ysgrifennwch i:

Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
Ground Floor, Hastings House, Fitzalan Court
Cardiff, CF24 0BL

Telephone: +44 (0)29 20464819
Telephone: +44 (0)29 21055521
E-mail: enquiries@boundaries.wales

© Crown Copyright 2021